

Caerdydd sy'n Dda i Blant, Pwyllgor Arbenigwyr

Adroddiad Cryno leuenctid 2023-2026



Cynnwys

Rhagair.....	3
Cyflwyniad	4
Methodoleg	4
Sesiynau Pwyllgor Arbenigwyr	4
Defnyddio Stori Newid Caerdydd ar gyfer cyd-destun	5
Trosolwg o Gynnydd (2023-2026)	5
Gwerthuso Blaenoriaethau	6
BLAENORIAETH 1 — ADDYSG AR HAWLIAU PLANT.....	6
BLAENORIAETH 2 — LLE.....	8
BLAENORIAETH 3 — CYFRANOGIAD	9
BLAENORIAETH 4 — CYFARTAL A CHYNWYSEDIG	11
Neges Derfynol i'r Rheini sy'n Gwneud Penderfyniadau	13

Rhagair

Mae ethos hawliau plant yn llifo'n gryf trwy gydol yr adroddiad hwn, nid yn unig yn y canfyddiadau a'r argymhellion, ond hefyd yn y ffordd y cafodd ei lunio. Mae cyfranogiad gweithredol, ystyrlon y Pwyllgor Arbenigwyr Plant a Phobl Ifanc yn ganolog i'r gwaith hwn. Mae eu safbwyntiau, eu profiadau a'u dadansoddiad yn sail i ganfyddiadau'r adroddiad, gan sicrhau bod y casgliadau wedi'u seilio ar brofiadau dilys plant a phobl ifanc ledled Caerdydd.

Mae taith Caerdydd tuag at ddod yn 'Ddinas sy'n Dda i Blant' yn un a ddiffinnir gan gynnydd, twf a dysgu. Mae'n seiliedig ar ymrwymiad i weithredu parhaus, gyda dulliau newydd a chreadigol yn dod i'r amlwg i ymgorffori hawliau plant mewn arferion pob dydd. Mae'r adroddiad hwn yn cynrychioli eiliad hanfodol o fyfrio yn y daith honno: cyfle i oedi, i wrando'n ofalus ar brofiadau pobl ifanc, i werthuso cynnydd yn erbyn y meysydd blaenoriaeth, ac i gyd-ddylunio argymhellion a fydd yn cryfhau ac yn siapio ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae'n ddathliad o'r hyn sydd wedi'i gyflawni ac yn her glir, adeiladol ynglŷn â lle mae angen cynnydd pellach.

Ar ran Cyngor Ieuenctid Caerdydd, hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Arbenigwyr am honni eu hawl i gael eu clywed ac am gyfrannu eu hamser, eu hegri a'u mewnwelediad i'r broses hon. Bydd eu gonestrwydd, eu meddylgarwch a'u parodrwydd i ymgysylltu'n feirniadol yn cael effaith hirdymor ar gyfeiriad y gwaith hwn. Rwyf hefyd am gydnabod ymroddiad tîm Caerdydd sy'n Dda i Blant wrth greu gofod addysgiadol, cynhwysol a chroesawgar lle roedd pobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i gymryd rhan yn agored ac yn ystyrlon.

Mae'r gwaith hwn yn dangos beth sy'n bosib pan fydd pobl ifanc yn cael eu trin nid fel ôl-ystyriaeth, ond fel partneriaid gwirioneddol wrth siapio'r ddinas maen nhw'n byw ynddi.

Arthur Templeman-Lilley - Cadeirydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen CIC

Cyflwyniad

Ni yw Pwyllgor Arbenigwyr Plant a Phobl Ifanc Caerdydd, grŵp o bobl ifanc 11–18 oed a ddaeth ynghyd rhwng 2023 a 2026 i werthuso cynnydd Caerdydd fel Dinas sy'n Dda i Blant yn erbyn y pedair blaenoriaeth a osodwyd ar gyfer y cylch cydnabyddiaeth hwn (2023–2026):

- Addysg ar Hawliau Plant
- Cyfranogiad
- Lle
- Cyfartal a Chynwysedig

Mae'r blaenoriaethau hyn wedi siapio ein holl drafodaethau, myfyrdodau a sgorio yn ystod sesiynau'r Pwyllgor Arbenigwyr. Mae'r adroddiad hwn yn dwyn ynghyd:

- Ymgysylltu ac ymgynghori ystyrlon â phobl ifanc
- Profiad byw plant a phobl ifanc
- Gwaith cyfranogi mewn ysgolion, gwasanaethau cyngor a chymunedau
- Canfyddiadau gan y Pwyllgor Arbenigwyr

Mae'r Adroddiad Cryno leuenctid hwn yn rhan o gyflwyniad Caerdydd i gael ei hailgydnabod gan UNICEF UK fel un o Ddinasoedd Cyntaf y DU sy'n Dda i Blant. Mae'n gyhoeddus ac yn esbonio:

- Yr hyn sy'n mynd yn dda
- Yr hyn sydd angen newid o hyd
- Sut mae pobl ifanc yn teimlo bod Caerdydd yn gwneud cynnydd yn erbyn y pedair blaenoriaeth
- Ein hargymhellion ar gyfer y tair blynedd nesaf

Methodoleg

Er mwyn deall pa mor dda y mae Caerdydd yn ei wneud fel Dinas sy'n Dda i Blant, gwnaethom ddefnyddio cyfuniad o weithgareddau ymarferol, trafodaethau grŵp a thystiolaeth o bob rhan o'r ddinas. Ein nod oedd sicrhau bod popeth yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar yr hyn a welodd, a deimlodd ac a ddywedodd pobl ifanc mewn gwirionedd, nid dyfaliadau neu ragdybiaethau.

Sesiynau Pwyllgor Arbenigwyr

Digwyddodd y rhan fwyaf o'n gwaith yn ystod diwrnod y Pwyllgor Arbenigwyr. Gwnaethom rannu'n grwpiau bach a chylchdroi o gwmpas pedair gorsaf, un ar gyfer pob blaenoriaeth. Ym mhob gorsaf, cawsom dystiolaeth i'w harchwilio, fel fideos, data, astudiaethau achos, crynodebau prosiectau, straeon go iawn gan blant a phobl ifanc, ac enghreifftiau o'r hyn y mae Caerdydd wedi bod yn ei wneud. Gwnaethom siarad am yr hyn a ddangosodd y dystiolaeth, sut roedd yn cyd-fynd â'n profiadau byw ein hunain, a beth oedd angen ei wneud o hyd.

Ar ddiwedd pob gorsaf, roedd pob person ifanc yn llenwi *cerdyn adroddiad* ar gyfer y flaenoriaeth honno. Fe ysgrifennon ni i lawr:

- Yr hyn sy'n gweithio'n dda
- Yr hyn nad oedd yn gweithio
- Yr hyn sydd angen ei newid
- Ein sgôr allan o 10 a'n rhesymau pam

Arweiniwyd y trafodaethau hyn gan egwyddorion y Ffordd Gywir (pethau fel cyfranogiad, cynhwysiant, cydraddoldeb ac atebolrwydd) i'n helpu i feddwl yn ddwfn am sut y dylai dinas sy'n parchu hawliau deimlo.

Defnyddio Stori Newid Caerdydd ar gyfer cyd-destun

Ochr yn ochr â'n lleisiau ein hunain, cyflwynwyd *Stori Newid Caerdydd* i ni er mwyn deall y darlun ehangach, y cynlluniau y tu ôl i'r gwaith, yr heriau y mae'r ddinas yn eu hwynebu, a'r rhesymau pam y gallai rhai newidiadau deimlo'n bwerus wrth i eraill deimlo'n araf. Gwnaethon ni ddefnyddio hyn i wneud synnwyr o'r hyn yr oeddem yn ei weld. Gwnaeth ein helpu ni i ddeall nid yn unig beth mae Caerdydd wedi'i wneud, ond pam mae pethau'n edrych fel y maen nhw'n ei wneud.

Yn olaf, gwnaethom gyfuno popeth, ein hadborth grŵp, ein cardiau adroddiad, ymgynghori cynharach a thystiolaeth ymgysylltu, a chynlluniau'r ddinas ei hun. Gwnaethom chwilio am y themâu a oedd yn parhau i ddod i'r amlwg dro ar ôl tro, felly mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu barn gyfunol pobl ifanc yng Nghaerdydd, nid barn unigolion yn unig.

Trosolwg o Gynnydd (2023-2026)

Dros y tair blynedd diwethaf, rydym wedi gweld Caerdydd yn gwneud ymdrechion gwirioneddol i ddod yn ddinas sy'n dda i blant well, a gall llawer ohonom deimlo'r newid hwnnw. Mae mwy ohonom yn dysgu am ein hawliau, yn cymryd rhan mewn penderfyniadau, ac yn gweld ein syniadau yn siapio'r lleoedd rydyn ni'n eu defnyddio bob dydd. Rydym wedi sylwi ar welliannau yn y ffordd y mae'r ddinas yn gwrando ar bobl ifanc, sut mae ysgolion yn siarad am hawliau a thegwch, a sut mae Caerdydd yn ceisio gwneud mannau cyhoeddus yn fwy diogel, yn fwy croesawgar, ac yn haws i gael mynediad atynt.

Ar yr un pryd, rydym hefyd yn gweld lle mae cynnydd yn teimlo'n anghyson. Mae rhai pethau'n gryf mewn un ysgol neu ardal, ond llawer llai cryf mewn un arall. Mae rhai grwpiau o bobl ifanc yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys a'u cefnogi, wrth i eraill ddweud nad ydyn nhw bob amser yn gweld yr un cyfleoedd. Ac er bod llawer o waith yn digwydd y tu ôl i'r llenni, mae llawer ohonom yn dal i ddweud nad ydym bob amser yn clywed amdano, neu nad ydym yn gweld y newidiadau yn ddigon clir yn ein bywydau pob dydd.

Ar y cyfan, dywedodd pobl ifanc wrthym fod gan Gaerdydd y *syniadau cywir*, y *gwerthoedd cywir*, ac

wedi gwneud *cynnydd go iawn*, yn enwedig mewn ysgolion cynradd, strwythurau cyfranogiad, gwaith yn ymwneud â thegwch rhywedd, teithio rhatach, ac ymgorffori hawliau plant mewn cynllunio. Mae'r sylfeini yn bendant yno. Ond rydyn ni eisiau i'r tair blynedd nesaf ganolbwyntio ar wneud y newidiadau hynny'n fwy cyson, yn fwy gweladwy, ac yn decach, fel bod pob person ifanc, waeth beth fo'u cefndir, ysgol neu gymdogaeth, yn teimlo'r effaith.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r hyn a ddywedodd pobl ifanc ledled y ddinas: beth sy'n gwella, lle mae pethau'n dal i deimlo'n anghyfartal, a'r hyn y mae angen i Gaerdydd ei wneud nesaf i wneud hawliau yn rhywbeth y gall pob plentyn a pherson ifanc eu gweld, eu teimlo, a dibynnu arnynt bob dydd.

Gwerthuso Blaenoriaethau

BLAENORIAETH 1 — ADDYSG AR HAWLIAU PLANT

Pennawd

Rydym yn falch o'r cynnydd y mae Caerdydd wedi'i wneud ym maes addysg hawliau, yn enwedig mewn ysgolion cynradd, ond mae gormod ohonom yn colli hynny pan fyddwn yn cyrraedd yr ysgol uwchradd, ac mae angen i hynny newid. Rydym hefyd yn credu na ddylai addysg hawliau ddod i ben wrth gât yr ysgol.

Cryfderau

Roedd pobl ifanc yn hynod gadarnhaol ynglŷn â sut mae hawliau plant yn cael eu haddysgu a'u profi mewn lleoliadau cynradd. Disgrifiodd llawer addysg hawliau fel ystyrlon, diddorol a grymusol. Ysgrifennodd un person ifanc, "Mae'n addo hawliau o oedran ifanc ac yn creu cenhedlaeth a fydd yn sefyll dros eu hawliau eu hunain a hawliau eraill." Tynnodd eraill sylw at sut mae addysg hawliau yn cefnogi hyder a llais: "Mae'n annog pobl ifanc i deimlo eu bod yn cael eu clywed ac yn datblygu sgiliau cyfathrebu, hyder ac arweinyddiaeth."

Roedd pobl ifanc hefyd yn cydnabod gwerth y daith glir a gynigir drwy'r Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau. Dywedodd sawl un pa mor ddefnyddiol yw'r strwythur, gan nodi bod "cynllun clir o Efydd i Arian i Aur sy'n helpu ysgolion i ymgysylltu'n wirioneddol â phlant." Roedd defnyddio swyddogion cyngor lleol fel aseswyr yn cael ei ystyried yn gryfder arbennig, gydag un person ifanc yn esbonio bod "cael swyddogion cyngor lleol wedi'u hyfforddi fel aseswyr Arian yn ei gwneud hi'n haws i ysgolion symud ymlaen."

Roedd cynnydd dros amser yn hawdd i bobl ifanc ei ddeall. Gwnaethant gydnabod bod "cynnydd amlwg wedi bod ers dechrau'r daith, gyda symudiad cryf ymlaen ers 2023," a bod mwy o ysgolion yn cymryd rhan yn dangos ymrwymiad cynyddol. Roedd argaeledd adnoddau UNICEF yn Gymraeg hefyd yn cael ei ystyried yn gam pwysig tuag at fynediad teg.

Y tu hwnt i wersi, roedd pobl ifanc yn gwerthfawrogi cyfleoedd i ddysgu am hawliau trwy weithdai,

digwyddiadau a gweithgareddau dan arweiniad ieuenctid. Mae'r rhain wedi helpu i wneud hawliau deimlo'n fwy real ac yn gysylltiedig â bywyd pob dydd.

Yn gyffredinol, roedd pobl ifanc yn teimlo bod ffocws cryf a gweladwy ar addysg hawliau plant, yn enwedig mewn ysgolion cynradd lle maen nhw'n ei brofi fwyaf cyson.

Gwendidau

Y gwendid clir a godwyd gan y bobl ifanc oedd y profiad o addysg hawliau plant mewn ysgolion uwchradd. Disgrifiodd pobl ifanc ddiffyg dro ar ôl tro ar ôl symud o'r ysgol gynradd, gydag un yn dweud, "Ysgolion uwchradd yw'r broblem fwyaf... mae hawliau'n diflannu pan fyddwch chi'n mynd yn hŷn." Dywedodd eraill er bod hawliau wedi'u hymgorffori yn gynharach, "erbyn Blwyddyn 9, mae llawer o bobl ifanc wedi anghofio am eu hawliau."

Roedd pobl ifanc yn teimlo bod hawliau'n dod yn llai amlwg mewn ysgolion uwchradd oherwydd pwysau ar ysgolion, ffocws arholiadau, ac amserlenni prysur. Disgrifiwyd iaith hawliau plant hefyd fel un a oedd yn teimlo'n "blentynnaidd" i bobl ifanc yn eu harddegau, a oedd yn ei gwneud hi'n anoddach ymgysylltu. Roedd llais y disgybl mewn ysgolion uwchradd yn aml yn cael ei ddisgrifio fel rhywbeth arwynebol, gyda phobl ifanc yn ansicr a yw eu barn yn arwain at newid neu beth sy'n digwydd nesaf.

Roedd cyfranogiad anghyfartal ysgolion yn bryder amlwg arall. Nododd pobl ifanc fod "rhai ysgolion wedi'u cofrestru ond ddim yn gwneud unrhyw beth," sy'n golygu bod profiadau yn dibynnu'n fawr ar ble rydych chi'n mynd i'r ysgol. Soniwyd am ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion preifat a dysgwyr AHY, a nododd un person ifanc y dylid "rhannu manteision y GYPH o leiaf gyda lleoliadau nas cynhelir".

Cwestiynodd pobl ifanc hefyd beth sydd ar waith i ddal ysgolion i gyfrif pan nad ydyn nhw'n cefnogi plant i honni eu hawliau, yn enwedig pan fydd plant yn teimlo nad yw eu hawliau'n cael eu parchu.

Argymhellion

Roedd pobl ifanc yn glir y dylai addysg hawliau plant aros gyda nhw trwy gydol eu haddysg ac i fywyd pob dydd. Argymhellodd llawer gryfhau addysg hawliau mewn ysgolion uwchradd, gydag un sylw yn dweud, "Dylai gwersi ABCh fod yn fwy addysgiadol am hawliau." Roedd pobl ifanc am i hawliau gael eu hegluro mewn ffyrdd sy'n teimlo'n berthnasol i bobl ifanc yn eu harddegau, fel rhywbeth sy'n meithrin hyder, annibyniaeth a sgiliau bywyd go iawn, nid dim ond rhywbeth i blant iau.

Cefnogwyd dulliau a arweinir gan gyfoedion yn gryf. Argymhellodd pobl ifanc rannu gwell rhwng ysgolion Arian ac Aur, llysgenhadon ieuenctid, a mwy o gyfleoedd i bobl ifanc esbonio pam mae hawliau yn bwysig i bobl ifanc eraill mewn ffyrdd sy'n teimlo'n ddilys ac y gellir ymddiried ynddynt.

Codwyd addysg wleidyddol fel mater pwysig, yn enwedig gan fod yr oedran pleidleisio bellach yn 16. Roedd pobl ifanc yn teimlo y dylai addysg hawliau gysylltu'n gliriach â democratiaeth, gwneud penderfyniadau a chael dweud eu dweud go iawn. Awgrymodd hefyd ymgorffori dysgu hawliau y tu hwnt i ysgolion, gan gynnwys gwasanaethau ieuenctid, clybiau ar ôl ysgol a gweithgareddau eraill.

Er mwyn gwella tegwch, argymhellodd pobl ifanc gefnogaeth gliriach a chryfach i ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion arbennig a lleoliadau AHY, ac archwilio ffyrdd o gyrraedd plant y tu allan i addysg brif ffrwd. Gwnaethant hefyd dynnu sylw at rôl rhieni a gofalwyr, gan awgrymu gwell cyfathrebu â

theuluoedd fel bod hawliau plant yn cael eu deall a'u cefnogi y tu hwnt i'r ysgol.

Sgôr a Pham

Roedd y sgorau'n amrywio o 7 i 9, gyda chyfartaledd o 8. Roedd pobl ifanc yn teimlo bod "hyfforddiant ysgol gynradd wedi bod yn effeithiol iawn," a bod cynllunio a chyflawni yn gryf. Fodd bynnag, roedd llawer hefyd yn teimlo bod "angen mwy o gefnogaeth i wneud mynediad yn deg i bawb" a bod ysgolion uwchradd bellach angen yr un lefel o ffocws a chefnogaeth. Ar y cyfan, roedd pobl ifanc yn cytuno bod Caerdydd yn gwneud yn dda, ond bod angen i'r cam nesaf ganolbwyntio ar gysondeb, perthnasedd i ddisgyblion hŷn, a chyrraedd pob plentyn.

BLAENORIAETH 2 — LLE

Pennawd

Gallwn weld Caerdydd yn cymryd hawliau plant wrth gynllunio o ddifrif - ond rydyn ni eisiau i'r newidiadau deimlo'n real yn ein cymdogaethau, ein llwybrau, a'r lleoedd rydyn ni'n treulio amser ynddynt mewn gwirionedd.

Cryfderau

Roedd pobl ifanc yn gadarnhaol iawn am ymrwymiad Caerdydd i ymgorffori chwarae a hawliau plant mewn cynllunio. Gwnaethon ni ddweud pethau fel "*mae polisi a chynhwysiant hawliau plant wedi eu gwneud yn dda iawn*" a gwnaethom sylwi ar y ffocws ar ddiogelwch, symudiad a theithiau pob dydd merched. Tynnodd rhai ohonom sylw at y ffaith bod parciau a gynlluniwyd gyda phobl ifanc hŷn mewn golwg yn "*syniad gwyh - 10 allan o 10*" a dywedon ni ein bod yn gwerthfawrogi sut mae'r ddinas yn gwrando ar ein profiadau cyn gwneud penderfyniadau.

Gwnaethom hefyd werthfawrogi'r gwaith cydgynhyrchu - o'r Cyngor Mawr i fapio cymdogaeth - oherwydd ei fod yn dangos bod ein profiadau byw yn siapio cynllunio. Ysgrifennodd un person ifanc, "*mae siarad â phobl ifanc a chasglu eu barn yn gwneud gwahaniaeth*" a gwnaeth hyn ein helpu i weld pam y gwnaethpwyd rhai dewisiadau dylunio.

Mae'r cryfderau hyn yn adlewyrchu sylfeini'r system a ddisgrifir yng ngwaith cynllunio Caerdydd — fel ymgorffori Polisi Chwarae annibynnol yn y CDLI a chynyddu'r defnydd o AEHPau — felly mae'n gwneud synnwyr bod y syniadau a'r bwriadau y tu ôl i'r flaenoriaeth hon yn teimlo'n bwerus i ni.

Gwendidau

Er bod polisi a chynllunio wedi gwneud cynnydd, roeddem yn onest nad yw cynnydd bob amser yn teimlo'n weladwy yn ein bywydau pob dydd. Dywedodd llawer ohonom fod angen "*mwy o oleuadau a lleoedd mwy diogel i bobl ifanc groesi ffyrdd*" ac mae'r newid hwnnw'n teimlo'n anghyson ar draws cymdogaethau. Dywedodd rhai ohonom fod trosedd a materion diogelwch sylfaenol yn dal i effeithio ar sut rydyn ni'n teimlo yn ein cymunedau.

Daeth canol dinas Caerdydd i'r amlwg fel bwlch: "*Nid oes gan ganol Caerdydd feysydd chwarae na*

chyfleusterau eraill i bobl ifanc" - yn enwedig plant a phobl ifanc hŷn sy'n dymuno cael mannau cymdeithasol, nid offer yn unig. Dywedodd eraill y gall rhagdybiaethau am bobl ifanc yn eu harddegau ddylanwadu'n negyddol ar ddylunio: *"mae yna ragdybiaeth fawr y bydd pobl ifanc yn eu harddegau yn fandaleiddio... ond pe bai'n seiliedig ar yr hyn maen nhw'n ei hoffi, a fyddai hynny'n dal i ddigwydd?"*

Rydym hefyd eisiau i newidiadau fod yn haws i'w deall. Dywedodd rhai ohonom, *"mae ymwybyddiaeth yn broblem arall, nid yw llawer o bobl ifanc yn ymwybodol o'r newidiadau a wnaed"* a bod diweddariadau yn anodd eu dilyn oni bai ein bod yn ymwneud yn uniongyrchol ag ymgynghoriadau. Mae hyn yn cyd-fynd â'r hyn y mae systemau cynllunio yn aml yn cael trafferth ag ef - yr amser y mae'n ei gymryd i bolisi ddod yn newidiadau gweladwy ar lawr gwlad.

Argymhellion

Rydym am i Gaerdydd ganolbwyntio ar welliannau pob dydd, gweladwy. Gofynnodd pobl ifanc yn gyson am *"ragor o oleuadau a chroesfannau... rhagor o leoedd i deimlo'n ddiogel ynddynt gyda ffrindiau"* ac am sylw manylach i'r strydoedd a'r llwybrau rydyn ni'n eu defnyddio bob dydd, nid parciau yn unig. Gwnaethom hefyd argymhell creu mwy o ardaloedd gwyrdd, mannau chwarae, a lleoedd i ymlacio ynddynt yng nghanol y ddinas.

Roedd gofodau sy'n addas i bobl yn eu harddegau yn un o'r themâu cryfaf: mae plant a phobl ifanc hŷn yn dymuno cael gofodau a ddyluniwyd gyda ni - o lochesi a seddi i ardaloedd sgelfrio, hybiau cymdeithasol ac offer ymarfer corff. Gwnaethom hefyd ofyn am gyfathrebu cliriach am newidiadau cynllunio, ac i AEHPau fod yn fwy penodol a chyson: *"Gellid cryfhau AEHPau... gyda chamau gweithredu mwy penodol"* fel ein bod ni'n deall sut mae ein hawlau yn cael eu hystyried.

Mae'r argymhellion hyn yn cyd-fynd â chamau nesaf Caerdydd — yn enwedig ynghylch dolenni adborth, llwybrau diogel a chanllawiau cynllunio sy'n dda i blant — ac rydym am fod yn rhan o hyn wrth i'r penderfyniadau hyn ddatblygu.

Sgôr a Pham

Roedd y sgorau'n amrywio o 5 i 9, gyda chyfartaledd o 7. Dywedodd llawer ohonom bethau fel, *"Mae llawer mwy y gallwn ei wneud ond rydyn ni ar ein ffordd"* ac *"mae angen i ymwybyddiaeth fod yn fwy eang"*. Mae'r sgorau'n dangos ein bod yn credu yn y trywydd y mae Caerdydd yn ei ddilyn — nawr rydyn ni eisiau i'r newidiadau ddod yn fwy gweladwy yn ein teithiau a'n gofodau pob dydd.

BLAENORIAETH 3 — CYFRANOGIAD

Pennawd

Rydym yn teimlo bod mwy o ffyrdd nag erioed i ddylanwadu ar benderfyniadau yng Nghaerdydd, ond oni bai bod adborth yn gwella a chyfleoedd yn cyrraedd mwy ohonom, ni fydd cyfranogiad yn teimlo'n gwbl ystyrlon.

Cryfderau

Siaradodd pobl ifanc yn gadarnhaol iawn am ehangder y cyfleoedd cyfranogi yng Nghaerdydd. Disgrifiodd llawer CIC fel grymus, gydag un sylw yn dweud, *"Mae CIC yn wych, un o'r pethau gorau i mi ei wneud erioed"*. Gwnaethom gydnabod bod gennym fynediad uniongyrchol at gynghorwyr, swyddogion a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau, a bod ein syniadau'n siapio meysydd fel addysg, cynhwysiant, cyfiawnder ieuencid a chynllunio. Nododd un person, *"tryloywder da gyda Chyngor Caerdydd gan ein bod yn gallu cysylltu â chynghorwyr"*.

Mae gan blant iau ffyrdd newydd o gymryd rhan drwy'r Pecyn Cymorth Gweithredu Cymdeithasol i Blant dan 11 oed, ac roeddem yn hoffi ei fod yn cefnogi trafodaethau a gweithredu cymdeithasol ar oedran cynnar. Gwelsom hefyd fod strwythurau cyfranogiad yn dod yn gliriach, *"mae fframwaith cyfranogiad wedi'i nodi'n glir... mae gwybodaeth yn hygyrch ac yn addas i blant"*, sy'n helpu i wneud i gyfranogiad deimlo'n fwy cyson ledled y ddinas.

Mae'r cryfderau hyn yn adlewyrchu'r newid ehangach yn y system yng Nghaerdydd: strwythurau cryfach, adolygiad cyfranogiad, gwell hyfforddiant, a dulliau newydd ar gyfer casglu mewnwelediad ieuencid. O'n safbwynt ni, mae'n esbonio pam mae cyfleoedd yn teimlo'n ehangach ac yn fwy sefydledig mewn gwahanol feysydd gwaith.

Gwendidau

Er gwaethaf y cryfderau hyn, y mater mwyaf a godwyd gennym, ar draws pob ymgysylltiad, oedd adborth. Gwnaethon ni ysgrifennu pethau fel, *"dim digon o adborth i bobl ifanc"* ac *"mae adborth yn aml yn hwyr ac yn anghyson"*. Nid yw llawer ohonom yn gwybod beth sy'n digwydd ar ôl i ni rannu ein barn, neu a oes unrhyw beth wedi newid.

Gwendid mawr arall oedd cyrhaeddiad. Mae rhai ohonom yn teimlo bod cyfranogiad yn dal i fynd i'r "un bobl ifanc bob tro," a dywedodd sawl un fod pobl ifanc y tu allan i CIC yn cael llai o gyfleoedd, yn enwedig mewn ysgolion nad oes ganddynt ddiwylliant llais ieuencid cryf. Dywedodd eraill y dylai fod mwy o gyfranogiad cyfrwng Cymraeg, a bod rolau craffu yn teimlo'n gudd: *"nid yw pobl ifanc yn aelodau llawn ar hyn o bryd... gall y fforymau hyn fod yn y cefndir"*.

Mae'r bylchau hyn yn cyfateb i'r hyn a ganfu'r adolygiad cyfranogiad, pocedi cryf o ragoriaeth ond bod anghysondeb, ac mae pobl ifanc yn teimlo hyn yn uniongyrchol.

Argymhellion

Roeddem yn glir iawn bod angen gwell strwythur, gwelededd a dilyniant ar gyfranogiad. Un o'r galwadau cryfaf oedd am *"strategaeth adborth bwrpasol"* fel bod pob cyfranogiad yn arwain at ddiweddariadau amserol, clir, sy'n addas i ieuencid. Rydym eisiau mwy o gyfranogiad mewn ysgolion, mwy o hyrwyddo cyfleoedd, a mwy o gyfleoedd i gymryd rhan y tu allan i CIC.

Gwnaethom hefyd argymhell digwyddiadau mwy a mwy rheolaidd: *"ni ddylai cyfranogiad bob amser fod yn grwpiau ffocws bach"*, a mwy o gysylltiad ag Aelodau'r Senedd a Senedd Ieuencid Cymru. Dywedodd rhai ohonom y dylai cyfranogiad pobl ifanc mewn craffu hyd yn oed fod yn gyfansoddiadol,

gan ddweud, *"ceisiwch ychwanegu plant a phobl ifanc at y cyfansoddiad ar gyfer byrddau a phwyllgorau"* fel nad ydym yn arsylwyr yn unig.

Rydym hefyd am gael systemau cliriach i gysylltu gwaith Pecyn Cymorth i Blant dan 11 oed â dilyniant a gwerthuso, fel nad yw'n dod yn weithgaredd untro. Mae'r argymhellion hyn yn pwyntio tuag at y cam nesaf o gyfranogiad y mae Caerdydd eisoes yn ei gynllunio — ond rydym am i'r newid hwnnw ddigwydd yn gyflym ac yn gyson.

Sgôr a Pham

Rhoddodd pobl ifanc sgorau rhwng 6 ac 8 yn bennaf, gyda chyfartaledd o 7. Dywedodd llawer, *"mae llawer o gyfleoedd cyfranogi... ond mae angen gwella adborth"* ac *"rwy'n teimlo fy mod yn cael fy nghlywed, ond gellid ehangu ar bethau"*. Mae ein sgorau yn adlewyrchu gwerthfawrogiad o'r hyn sy'n bodoli, ac awydd i gyfranogiad fod yn decach ac yn fwy effeithiol.

BLAENORIAETH 4 — CYFARTAL A CHYNWYSEDIG

Pennawd

Fel pobl ifanc, gallwn weld Caerdydd yn gwneud ymdrechion gwirioneddol i wneud y ddinas yn decach, yn fwy cynhwysol ac yn haws i bob un ohonom gael mynediad ati, ond nid yw'r newidiadau hynny bob amser yn cyrraedd pawb, ac weithiau maent yn teimlo'n gudd neu'n anghyson yn dibynnu ar eich ysgol, eich cefndir, neu eich cod post.

Cryfderau

Gwnaethom sylwi mai rhai o'r newidiadau mwyaf o dan y flaenoriaeth hon yw'r rhai sy'n gwneud bywyd pob dydd yn well. Roedd y pris tocyn bws o £1 yn sefyll allan bron i bawb. Disgrifiodd pobl ifanc hyn yn beth *"eithriadol o dda ac mae'n helpu llawer i gael mynediad i leoedd ledled Caerdydd nad oeddent efallai wedi gallu mynd iddynt o'r blaen"*. Mae'n teimlo fel un o'r enghreifftiau cliriach o gynhwysiant ar waith, rhywbeth nad ydych chi'n clywed amdano yn unig, ond yn ei ddefnyddio. Esboniodd un person ifanc ei fod wedi *"caniatáu i mi fynd allan yn llawer haws, yn enwedig yn ystod amseroedd heriol"*, sy'n dangos sut y gall newidiadau ymarferol gefnogi lles, annibyniaeth a pherthyn.

Gwelsom hefyd waith da yn digwydd ynghylch tegwch rhywedd. Soniodd llawer ohonom am raglen y bechgyn a gwaith diogelwch y merched. Roedd y cyfuniad o'r rhain yn gwneud synnwyr i ni, nid trin materion rhywedd fel rhywbeth 'i ferched yn unig', ond gweithio gyda phawb i newid agweddau. Dywedodd un person, *"mae'r gwaith gyda'r bechgyn yn swnio'n dda iawn... gyda ffocws clir ar wrando ar ferched a bechgyn i greu mannau mwy diogel a mwy agored"*. Daeth nodyn atgoffa arall gan ferched a ddywedodd eu bod yn gwerthfawrogi *"gwell cynhyrchion glanweithiol a menywod mewn ysgolion"* a bod eisiau i hyn barhau ac ehangu.

Gwnaethom hefyd gydnabod gwaith pwysig gyda phobl ifanc o'r mwyafrif byd-eang, yn enwedig rhaglenni arweinyddiaeth a chynrychiolaeth. Ysgrifennodd un person ifanc fod hyn yn *"ffordd wych o*

ddangos rolau arweinyddiaeth i unigolion" ac i greu llwybrau nad yw llawer ohonom fel arfer yn cael eu cynnig.

Sylwodd pobl ifanc niwrowahanol ar y pwyllgor hefyd ar arwyddion cynnar newid, gan ddweud bod gwaith Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth yn helpu *"unigolion deimlo'n ddiogel, a theimlo fel y gallant fod ynddyn nhw eu hunain mewn amgylchedd"*.

Ar ben hynny, roeddem yn teimlo bod gwaith OMIDAZE yn gryfder eleni, oherwydd ei fod yn helpu pobl ifanc i ddeall *sut mae penderfyniadau yng Nghaerdydd yn cael eu gwneud mewn gwirionedd*. Dangosodd i ni y gall creadigrwydd wneud i hawliau a democratiaeth deimlo'n fwy real, ond dywedodd rhai ohonom fod angen mwy o amser a chefnogaeth arnom i gymryd rhan lawn, felly mae gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau y gall pob ysgol elwa o'r math hwn o brofiad.

Mae'r cryfderau hyn yn adlewyrchu ymdrech ehangach y ddinas, trwy strategaethau newydd, cynlluniau pilot arweinyddiaeth, a gwaith wedi'i dargedu, felly mae'n gwneud synnwyr bod rhai gwelliannau yn dechrau dod i'r amlwg yn ein bywydau.

Gwendidau

Y mater mwyaf ailadroddus o dan Cyfartal a Chynwysedig oedd ymwybyddiaeth. Dywedodd cynifer ohonom nad oeddem yn gwybod am y pethau sydd wedi'u cynllunio i'n cefnogi. Ysgrifennodd un person ifanc, *"mae ymwybyddiaeth yn fater allweddol... nid oedd pob person ifanc yn ymwybodol o'r newidiadau hyn"*, gan gynnwys rhai mawr fel y cynllun bysus a chynigion arweinyddiaeth. Pan nad yw gwaith yn weladwy, gall deimlo fel nad oes unrhyw beth yn digwydd, hyd yn oed pan mae'r ddinas yn buddsoddi ynddo.

Thema bwysig arall oedd anghysondeb, yn enwedig rhwng ysgolion. Dywedodd rhai pobl ifanc eu bod yn dal i brofi gwahaniaethu, neu'n teimlo nad ydynt yn cael eu cymryd o ddifrif. Nododd un ymateb, *"mae achosion gwahaniaethu yn aml yn mynd heb eu hadrodd mewn ysgolion oherwydd stigma,"* ac ysgrifennodd un arall *"mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn dal i fod yn hynod annheg, ac nid oes unrhyw beth wedi newid mewn gwirionedd"*. Tynnodd plant a phobl ifanc niwrowahanol sylw at y teimlad o gael eu hanwybyddu neu eu camddeall, gan atgyfnerthu bod y system yn dal i fod yn anghyson. Nodwyd mai dim ond yn 2025 y lansiwyd gwaith allweddol yn y maes hwn yn ffurfiol, a bod strategaethau yn cwmpasu blynyddoedd lawer o weithredu.

Gwnaethom hefyd sylwi bod rhai mentrau cynhwysiant yn teimlo eu bod wedi'u hanelu'n ormodol at grwpiau penodol, ac nad ydynt bob amser yn cyrraedd eraill. Dywedodd rhywun yn blwmp ac yn blaen: *"dim ond gyda rhai grwpiau penodol y mae'r rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei wneud, sydd wedyn yn eithrio eraill"*, gan ddangos pa mor hawdd yw hi i waith cynhwysiant greu bylchau newydd yn ddamweiniol os nad yw'n cael ei wneud ledled y ddinas.

Mae'r gwendidau hyn yn cyd-fynd â'r dysgu yng ngwaith cynhwysiant ehangach Caerdydd, lle mae polisïau da yn bodoli, ond mae profiad byw yn dibynnu'n helaeth ar leoliad a gweledd.

Argymhellion

Rydyn ni am i gynhwysiant deimlo'n gliriach, yn decach ac yn fwy cyson ar draws y ddinas gyfan.

Dyweddodd llawer ohonom bod angen *"sicrhau bod pob person ifanc yn ymwybodol o newidiadau... boed trwy'r ysgol neu hysbysebu eang"* fel bod y gwaith yn cyrraedd ei gynulleidfa. Gofynnwn ni am i addysg am degwch rhywedd a pherthnasoedd parchus dyfu ar draws pob ysgol uwchradd, ac i raglenni bechgyn a merched gael eu hehangu fel eu bod ar gael ym mhobman, nid dim ond mewn rhai ysgolion.

Dyweddodd llawer ohonom hefyd y dylid ehangu rhaglenni arweinyddiaeth a chynrychiolaeth: *"dylai rhaglenni arweinyddiaeth fod ar gyfer pob grŵp lleiafrifol, nid dim ond un"* ac iddynt gael eu hyrwyddo'n well fel ein bod ni'n gwybod sut i gymryd rhan. O ran niwroamrywiaeth, gofynnodd pobl ifanc am *"addysg am niwroamrywiaeth ar lefel ysgol gynradd"* ac addasiadau mwy ymarferol ar draws lleoliadau.

Mae'r argymhellion hyn yn cyd-fynd â chyfeiriad presennol Caerdydd, ond rydym am i'r gwaith hwn fodoli mewn ffordd y gallwn ei weld a'i deimlo.

Sgôr a Pham

Roedd ein sgorau yn amrywio o 6 i 8, gyda chyfartaledd o 7. Dyweddodd llawer ohonom bethau fel, *"mae Caerdydd wedi gwneud gwaith gwych... ond mae diffyg ymwybyddiaeth yn gyffredin"* ac *"mae yna lawer o waith gwych yn cael ei wneud... dim ond bod rhai meysydd angen mwy o ffocws"*. Gallwn weld bwriadau cryf a chynnydd gwirioneddol, nawr rydyn ni am i'r newidiadau hynny fod yn gliriach ac yn fwy cyfartal i bawb.

Neges Derfynol i'r Rheini sy'n Gwneud Penderfyniadau

Mae Caerdydd yn newid, ac rydyn ni'n gallu ei deimlo. Dros y tair blynedd diwethaf, rydym wedi gweld syniadau newydd, cyfleoedd newydd, ac ymdrech wirioneddol i wneud hawliau plant yn rhan o fywyd pob dydd yn ein dinas. Mae mwy ohonom yn dysgu am ein hawliau, yn cymryd rhan mewn penderfyniadau, ac yn gweld ein barn yn siapio cynlluniau, polisiâu a lleoedd. Ond rydyn ni hefyd wedi bod yn onest: nid yw'r profiad o fod yn blentyn neu'n berson ifanc yng Nghaerdydd yr un peth i bawb.

Rydym am ddiolch i'r oedolion a'r timau ledled y ddinas sydd wedi gwrando arnom, wedi ein cynnwys ni, ac wedi cymryd ein syniadau o ddifrif - mae'n gwneud gwahaniaeth. Ond dim ond y man cychwyn yw gwrando. Yr hyn sy'n bwysicaf i bobl ifanc nawr yw cysondeb, gwelededd a thegwch. Rydyn ni am gael dinas lle nad yw cynnydd yn rhywbeth y mae'n rhaid i chi chwilio amdano, ond yn rhywbeth y gallwch chi ei deimlo yn eich ysgol, eich cymdogaeth, a'r lleoedd rydych chi'n eu defnyddio bob dydd.

Dyma ein neges, felly:

Daliwch ati - a gwnewch y cynnydd yn real i bob un ohonom.

Rydyn ni am i hawliau fod yn fwy na pholisïau neu addewidion. Rydyn ni am gael cyfranogiad sy'n arwain i rywle. Rydym am gael strydoedd mwy diogel, ysgolion tecach, gwell cyfathrebu, a chyfleoedd sy'n cyrraedd pob person ifanc - nid dim ond y rheini sydd eisoes yn gwybod sut i gymryd rhan. Rydym am i gynhwysiant, parch, cydraddoldeb a pherthyn fod yn rhan o ddiwylliant Caerdydd, heb fod yn ddibynnol ar ble rydych chi'n mynd i'r ysgol neu pa oedolion rydych chi'n digwydd cwrdd â nhw.

Yn bwysicaf oll, rydym am i chi barhau i'n gweld ni fel partneriaid. Nid fel ymarfer ticio blychau, nid fel ychwanegiad, ac nid fel grŵp i ymgynghori ag ef ar ddiwedd y broses - ond fel pobl sy'n haeddu siapio'r ddinas rydyn ni'n tyfu i fyny ynddi. Mae gennym syniadau, arbenigedd a phrofiadau byw a all helpu Caerdydd i ddod y ddinas wirioneddol dda i blant y mae'n anelu at fod.